

**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**15 Mawrth 2022 arlein, trwy zoom am 8.00 o'r gloch**  
**Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,**  
**15 March 2022, online through Zoom at 8.00pm**

**Presennol/Present**

Cyng Daniel Thomas (Gadair/*Chair*), Gwilym Evans, Eirian Jones, Gwenfair Owen, Paul Rook (o 20:35 ymlaen), Rhian Turner, Myrddin James, Beryl Evans a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng/*Cllr* Emyr Jones

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / *No one*

**Adroddiad yr Heddlu / Police Report**

Ni dderbyniwyd adroddiad o'r heddlu.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

Cytunwyd fod cofnodion mis Chwefror yn gywir ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones.

**Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- Angen lluniau o'r gwaith sydd wedi'u gwblau ar y milwr ac oddi amgylch, Cadeirydd i dynnu lluniau.
- Angen anfon llythyr i BARCUD i drefnu cyfarfod yn y man a'r lle i drafod y posibilrwydd o barcio ar y lawntu alln i tai Gwynfil.
- Cytunwyd i drefnu cyfarfod efo'r trigolion y dair ward & Huw Richards, Trewern, i drafod ymhellach y posibilrwydd o addurno'r ardal ar gyfer amser yr Eisteddfod.
- Pris hysbysebion yn y Cambrian News ar gyfer hysbysebu swydd Clerc oedd £152 & TAW = 1 wythnos gan gynnwys 4 wythnos arlein; neu £203 & TAW = 2 wythnos gan gynnwys 1 mis arlein. Cytunwyd i ofyn i'r Clerc presennol i barhau yn y swydd dros cyfnod yr etholiad ac i'w ail drafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.
- Cytunwyd i drefnu hyfforddiant y peiriannau Di-ffib ar ôl yr etholiad, Mr Glyn Jones ar gael yn ôl yr angen. Dyletswydd y Neuadd Jiwbili oedd y diffyb a leoli'r tu allan i'r neuadd. Soniwyd nad oedd y peiriant yma wedi'u gofrestru efo'r ambiwlans. Cynhelir cyfarfod efo'r Welsh Ambulance Service Trust am 6.30 o'r gloch nos Sul 21 Mawrth 2022, lle roedd croeso i unrhywun ymuno.
- Cefnogwyd y cais i dderbyn y bin dillad ail-gylchu ar bwys Dolaeron ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen, o dan yr amodau canlynol – Angen sicrhau bod y bin yn cael ei wneud yn saff ar y llawr, cadw'r lle yn daclus, dim llygod yn ymweld a'r safle a bod rhywun o'r Ysgol yn gyfrifol am y bin a'r cynnwys. Clerc i gadarnhau'r uchod efo Mrs Buttimer.

**Llyn Fanod**

Cadeirydd wedi bod mewn cysylltiad a Edwrdd Harris, cyfreithwyr Abertawe a oedd wedi ysgrifennu at yr House of Lords i gael copiau or ddogfennaeth. Angen anfon e-bost i Cyng Beryl Evans i geisio edrych mewn i pa ffeiliau a dogfennaeth sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn barod.

**Cyfrifon/Accounts**

- Zoom £14.39 (24.02.22) & £14.39 (24.03.22) = £28.78
- Cyflog y Clerc £111.67 (Chwef) & £111.67 (Mawrth) = £223.34
- Llythyr wedi'u dderbyn i gysylltu a Barclays i ad-newyddu llofnodion y Cynghorwyr ar cyfrif y Cyngor Cymuned yn dilyn marwolaeth y diweddar John Evans.

Cytunwyd i dalu'r uchod ar gynnig Cyng Rhodri Evans ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones

**Gohebiaeth/Correspondence**

Dim i'w gofnodi

**Cyngor Sir Ceredigion County Council**

- Clerc yn cynnig cynorthwyo a dychwelyd ffurflenni etholiad. Bydd angen i'r ffurflenni cael ei dychwelyd i swyddfa'r Cyngor Sir Ceredigion erbyn 4 o'r gloch ar 5ed o Ebrill 2022.
- Angen cylchredeg ffurflenni lwfans y Cynghorwyr a'i dychwelyd i'r clerch cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cyng Gwilym Evans yn cynnig bod y Cadeirydd presennol yn derbyn y lwfans am ei holl waith ychwanegol a wnaed ar Llyn Fanod.

### **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Dim i'w gofnodi.

### **Swydd Clerc/Post of Clerk**

Cytunwyd i parhau llenwi'r swydd Clerc ar ôl yr Etholiad, Clerc persennol i sefyll mewn swydd tan ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

### **Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- Grafel wedi llifo a chronni ar waelod rhiw Cefn Banadl, Llwynpiod.
- Dwr yn cronni ar bwys Bwlch Ffin, Llwynpiod angen sylw.
- Nifer o dyllau ar y tro mawr ar bwys Ty Nant a Bwlchffin, Llwynpiod.
- Grafel wedi dod allan i'r ffordd ar Pont Penbontbregarreg, angen sylw.
- Cerbyd wedi bod yn y clawdd rhwng Cae Melyn a Cnwc y Barcud, Llangeitho wedi gwneud twll wrth ochr y ffordd angen llenwi.
- Twll yn y ffordd rhwng 6 Bro Gwynfil ac Aeron View, Llangeitho.
- Diolchwyd i Cyng Rhodri Evans am sortio nifer o bethau yn Ward Penuwch yn ddiweddar.
- Fferyllfa Tregaron wedi'u werthu, ni fydd neb yn medru archebu presgripsiwn dros y ffonau bellach.
- Diolchwyd i Cyng Gwenfair Owen am hysbysebu'r llwybrau cyhoeddus ar y radio yn ddiweddar.
- Trefnwyd Gwyl nos ar gyfer Iwcrain yn y dyfodol agos, am fwy o fanylion cysylltwch a'r Cadeirydd.
- Diolchwyd i'r Cynghorwyr, na fu'n ail sefyll yn yr etholiad, am ei holl gwaith yn ystod cyfnod fel Cynghrowyr.
- Diolchodd y Cynghorydd Sir i bawb am ei ymrwymiad a'r cydweithrediad dros nifer o flynyddoedd fel aelodau o Gyngor Cymuned Llangeitho

### **Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting**

Cynehlir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwedd mis Mai, Clerc i hysbysu'r Cynghorwyr fydd mewn swydd.